


**Dydd Mercher, 30 Medi 2020**

**14:00 – 16:30**

**Cynhaliwyd y cyfarfod dros Microsoft Teams**

| **Aelodau presennol:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Dilwyn Williams (DOW) | Cyngor Gwynedd |
| Annwen Morgan (AM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Jackie Irwin (JI) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Einir Young (EY) | Prifysgol Bangor |
| Sioned Rees (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Sian Williams (SW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Sian Purcell (SP) | Medrwn Môn |
| Emyr Williams (EW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Shan Morris (SM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Ffrancon Williams (FfW) | Adra |
| Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Aled Jones-Griffith (AJG) | Grŵp Llandrillo Menai |

| **Yn mynychu:** | |
|---|---|
| Nonn Hughes (NH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Sophie Ann Hughes (SAH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Dewi Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |

| **Ymddiheuriadau:** | |
|---|---|
| Siobhan Adams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Gill Harris | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yr Athro Andrew Edwards | Prifysgol Bangor |

**Crynodeb o'r gweithrediadau**

| Rhif Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawyd Jackie Irwin ar ran Siobhan Adams, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Einir Young ar ran yr Athro Andrew Edwards, Prifysgol Bangor. | | |
| 2 | **Cylch Gorchwyl**<br><br>Cafwyd trafodaeth ar yr angen i ethol cadeirydd, a mynegwyd rhai pryderon ynghylch newid cadeirydd yn ystod y cyfnod presennol o ansicrwydd. Awgrymwyd hefyd fod angen ailedrych ar y tymor gan gynnig tymor o ddwy flynedd i Gadeiryddion i'r dyfodol a cytunwyd i ailedrych ar y cylch gorchwyl.<br><br>Cytunwyd fodd bynnag i ethol Cadeirydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Rhagfyr a gofynnwyd i bawb anfon enwebiadau i Nonn. | NGH/SAH<br><br>Pawb | Rhagfyr<br><br>Rhagfyr |
| 3 | **Cofnodion i'w cymeradwyo**<br><br>Cynigiodd LlMH fod cofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth yn gywir. Eiliwyd y cynnig gan SW.<br><br>Cynigiodd DS fod cofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin yn gywir. Eiliwyd y cynnig gan AM.<br><br>Cadarnhawyd fod pwyntiau gweithredu'r cyfarfod ym mis Mehefin wedi eu cwblhau, gyda gweithdy i ystyried blaenoriaethau'r BGC o'r cyfnod hwn ymlaen wedi'i gynnal ar 17/9/2020. | | |
| 4 | **Canfyddiadau'r gweithdy 17.09.2020**<br><br>Crybwyllwyd yr holl faterion a oedd wedi eu trafod yn y gweithdy a gynhaliwyd yn ddiweddar, gan egluro mai 8 mater sydd wedi ei gyfeirio ymlaen er sylw'r Bwrdd yn y cyfarfod hwn. Mae'r 8 mater wedi deillio o farn yr aelodau bod rôl posibl i'r Bwrdd yn symud ymlaen. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a yw'r is-grŵpiau presennol dal yn berthnasol, a oes angen ailystyried eu cylch gorchwyl ac a yw'r arweinyddion presennol yn hapus i barhau wrth y llyw.<br><br>**Mater 1 - Rhoi sylw i faterion iechyd meddwl wedi ei gyplysu gyda llesiant a'r amgylchedd naturiol**<br><br>Nodwyd fod cryn waith yn cael ei gynnal yn adran iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd, gyda Theresa Owen wedi cymryd y portffolio ymlaen. Mynegwyd bryderon gan FfJ nad yw'r trydydd sector yn cael eu hystyried os yw'r mater hwn yn cael ei osod o dan yr agenda 'iechyd a gofal'.<br><br>Cydnabuwyd hefyd mai'r cyswllt rhwng llesiant a'r amgylchedd naturiol sydd wedi'i nodi a bod hyn yn ymwneud yn bennaf â gweithredu'n ataliol i atal yr angen am wasanaethau iechyd ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed y pwynt fod gan y Bwrdd Iechyd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | agenda ataliol a bod angen i ni ddeall a yw'r Bwrdd Rhanbarthol yn delio â hyn fel rhan o'r dyletswydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Codwyd y pwynt bod perygl i grwpiau fod yn cael eu sefydlu ar draws ei gilydd gan fod rhai eisoes yn bodoli i edrych ar faterion megis presgripsiynau cymdeithasol.<br><br>Cytunwyd na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i sefydlu is-grŵp arall, ac yn hytrach bod angen sicrhau presenoldeb y trydydd sector a'r sector amgylcheddol yn y trafodaethau priodol. Hefyd, cytunwyd fod angen gwneud rhywfaint o waith i edrych ar beth sy'n digwydd eisoes ac yn lle, er mwyn galluogi trafodaeth pellach. | FfJ | Cyfarfod nesaf |
| | **Mater 2 - Rhoi sylw i faterion diweithdra ymysg pobl ifanc**<br><br>Nodwyd fod Awdurdodau eisoes yn gwneud y swyddogaethau hyn a bod hefyd gynlluniau adfer yr economi yn digwydd ac yn bwydo i Lywodraeth Cymru. Nodwyd pryder ynghylch beth fyddai rôl y BGC, ond cytunwyd y gellid cynnal cyfarfod rhwng rhai o bartneriaid y BGC er mwyn ystyried beth sy'n digwydd eisoes a lle mae cyfleon i gydweithio ymhellach a rhannu arfer dda.<br><br>Crybwyllwyd y cynllun Kick Start sy'n ceisio denu sefydliadau sy'n fodlon darparu isafswm o 30 lleoliad gwaith, gyda'r cynnig o gefnogaeth i wneud hynny. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol eisoes yn ystyried hyn ond y byddai'n fuddiol cwrdd i drafod hyn hefyd ac ystyried cyfleon cydweithio o ran hwyluso ac ati. Mae Adra hefyd eisoes mewn trafodaethau ac yn disgwyl rhagor o wybodaeth. Nododd FfJ y dylid cynnwys y Bwrdd Iechyd yn rhan o hyn, a mynegwyd diddordeb i wybod mwy gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd. Nododd SM nad oedd yn gwybod digon am y cynllun, ond y byddai unrhyw gyfleon gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ar draws y rhanbarth ac nid yng Ngwynedd a Môn yn unig. Cytunwyd y drefnu cyfarfod pellach i drafod hyn.<br><br>Pwysleiswyd yr angen i sicrhau fod y Gymraeg yn flaenllaw yn y cyfleon hyn hefyd. | DOW/ NGH | cgaph |
| | **Mater 3 a 4 - Y BGC i drafod sefyllfa timau hawliau lles a gwasanaethau cynghori ar ddyledion, sy'n cael ei llethu ag ymholiadau am gymorth, ac Ystyried camau gweithredu mewn perthynas â thlodi ariannol**<br><br>Nododd FfW bod trefniadau'n bodoli i safon digonol eisoes gyda nifer o gyrff yn cyfrannu'n ariannol ac felly bod risgiau wrth ymyrryd. Fodd bynnag, nododd DOW nad oedd yn siŵr a oedd y safon yn ddigonol gan fod pryderon a yw Cyngor ar Bopeth yn gallu cwrdd â'r galw erbyn hyn.<br><br>Cytunwyd i gomisiynu gwaith er mwyn ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth, gan ofyn iddynt adrodd yn ôl i ni. Gellid wedyn ystyried a oes rôl i'r BGC. | DOW/ NGH | Cyfarfod nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mater 5 - Rhoi ystyriaeth i sefyllfa'r Gymraeg yn ystod y cyfnod o adfer**<br><br>Nododd BRW nad oes capasiti ganddi i arwain ar y gwaith yma bellach, ac felly ei bod yn tynnu ei henw'n ôl fel arweinydd y grŵp. Gan mai'r Brifysgol a fu'n arwain yr is-grŵp yn y gorffennol, gofynnwyd i EY drafod y posibilrwydd o ailgydio i'r dyfodol.<br><br>Nodwyd fod trafodaethau wedi bod yn y gweithdy diweddar ynghylch effaith tai yn cael eu prynu i bwrpas ail-gartrefi. Cytunwyd bod angen deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn ac efallai nad y BGC yw'r lle priodol am y sgwrs. Fodd bynnag, nodwyd bod y Bwrdd wedi cael cyngor i ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol ar faterion sydd o bryder iddynt i amlygu beth sydd angen newid. Awgrymwyd ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.<br><br>Yng nghyd-destun Covid-19, cwestiynwyd a oes pethau ymarferol y gallai'r BGC ei wneud. Er enghraifft, nodwyd fod angen edrych ar effaith technoleg mewn addysg gan fod na nifer o raglenni gwych yn bodoli sy'n uniaith Saesneg. Hefyd, nodwyd fod angen cwestiynu beth sydd wedi cymryd cam yn ôl o ran hyrwyddo'r Gymraeg o fewn sefydliadau'r partneriaid, cyn ystyried sut i symud ymlaen. Angen i'r is-grŵp ddod ynghyd i drafod hyn. | EY<br><br>SAH | Cgaph<br><br>Cyn cyfarfod nesaf |
| | **Mater 6 - Materion yn gysylltiedig â Newid hinsawdd**<br><br>Nodwyd fod y BGC wedi canolbwyntio'n wreiddiol ar effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau ac ymateb i'r her honno. Nodwyd fod gwaith rhanbarthol yn digwydd hefyd a bod angen gwirio bod y gwaith yna yn parhau. SW am edrych ar hyn i sicrhau nad oes dyblygu a bod cyfleon i ddysgu oddi wrth ein gilydd.<br><br>Nodwyd bod angen trefnu cyfarfod o'r is-grŵp, ac wrth ailgydio bod angen ystyried a yw'r cydweithio rhwng partneriaid yn gwneud yr hyn yr oedd i fod i'w wneud, ac a ydym yn cydweithio cystal ag y medrwn wrth ymateb i sefyllfaoedd lle rydym yn gwybod y bydd llifogydd yn codi.<br><br>Nododd FfW bod agenda i ddatgarboneiddio tai yng Nghymru a bod angen lot o adnoddau er mwyn buddsoddi yn y tai cywir i gyflawni'r allbynnau priodol. Mae strategaeth y Llywodraeth yn targedu tai cymdeithasol i ddechrau ond mae'r uchelgais yn cynnwys y sector breifat hefyd. Ychwanegwyd nad yw nifer o dai wedi eu dylunio i weithio o gartref ac os bydd hyn yn dod yn rhan o'r normal newydd y bydd angen ail edrych ar gynlluniau tai. | SW<br><br>SW | Cgaph<br><br>cgaph |
| | **Mater 7 - Argaeledd Tai yn Lleol**<br><br>Cyflwynodd FfW ei adroddiad cynnydd, gan bwysleisio bod cynyddu'r cyflenwad o dai yn parhau i fod yn flaenoriaeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nododd fod cydweithio yn arbennig o dda ymysg yr is-grŵp cartrefi ac mai'r risg mwyaf yw'r diffyg safleoedd sy'n cael eu cyflwyno. Mae'n dechrau dod i'r amlwg na fydd yr is-grŵp yn cyflawni llawer mwy nag y byddai'r Awdurdodau Lleol wedi'i gyflawni fel rhan o'u strategaethau tai os mai dim ond y safleoedd presennol sydd ar gael. Cwestiynwyd a oes mwy all y BGC ei wneud i adnabod mwy o safleoedd.<br><br>Ar bwynt gwahanol, cafwyd trafodaeth ar effaith ailgartrefi ac AirBnBs ar y farchnad gyfredol, a cydnabuwyd bod unrhyw amodau sy'n cael eu gosod ar dai yn ei gwneud yn anodd i gael morgais ac felly bod rhaid bod yn hynod ofalus, gan ganolbwyntio ar wthio am newid yn y ddeddfwriaeth. Nodwyd fod yr Awdurdodau Lleol yn gwneud llawer o waith ar hyn o bryd i ystyried sut gellid cael rheolaeth ar y sefyllfa ac felly cytunwyd fod y BGC yn aros i gael clywed beth ddaw o'r gwaith yma gan yr Awdurdodau cyn ystyried a oes rôl iddo.<br><br>**Mater 8 - Rhoi sylw i faterion gordwristiaeth/diffyg balans yn y sector twristiaeth**<br><br>Nodwyd fod yr Awdurdodau Lleol yn ystyried y mater yma ar hyn o bryd, gan dderbyn bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng y materion yn y ddwy sir. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn canolbwyntio ar sefydlu beth yw twristiaeth gynaliadwy gan ystyried pa fath o dwristiaeth rydym yn ei ddymuno a pha fath nad ydym yn ei ddymuno.<br><br>Nododd Arweinyddion y cynghorau eu bod yn awyddus i'r drafodaeth yma fynd yn ei blaen er mwyn gweld sut mae wahanol ffactorau'n plethu i'w gilydd. Cytunwyd bod angen rhoi amser i'r awdurdodau wneud y gwaith yma cyn cael trafodaeth bellach yng nghyfarfodydd y BGC i'r dyfodol.<br><br>Cytunwyd y gellid cael rhan gyntaf y drafodaeth (h.y. sut bydd y ddwy sir yn dygymod gyda'r niferoedd), ond na fydd yr ail ran o'r drafodaeth (beth fyddem yn ddymuno ei weld a'i peidio) yn ddigon aeddfed hyd nes diwedd y flwyddyn ariannol. | Aelodau i edrych beth sy'n bosib<br><br>AM a DOW i gyflwyno adroddiad<br><br>AM/DOW i gyflwyno adroddiad | cgaph<br><br>Pan fydd y gwaith yn barod<br><br>Cyfarfod mis Rhagfyr |
| 5 | **Adroddiadau ar gynnydd blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant**<br><br>**Newid Hinsawdd**<br><br>Nodwyd nad yw'r is-grŵp iaith wedi cwrdd yn ystod cyfnod y pandemig. Cadarnhaodd SW nad oedd diweddariad pellach i'r hyn sydd wedi'i roi eisoes yn unol ag eitem 4.<br><br>**Iechyd a Gofal – Ffion Johnstone**<br><br>Cyflwynodd FfJ ei hadroddiad gan gadarnhau fod y gwaith wedi cymryd trywydd ychydig yn wahanol i'r bwriad. Derbyniwyd yr adroddiad.<br><br>**Cartrefi – Ffrancon Williams**<br><br>Cyflwynodd FfW ei adroddiad. Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6** | **Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn 2019/20**<br><br>Rhennir yr adroddiad er gwybodaeth i'r partneriaid. | | |
| **7** | **Heriau a Chyfleon**<br><br>Nodwyd pryder ynghylch y tlodi digidol rydyn ni'n ei wynebu, gyda nifer o'n pobl ifanc yn methu â chael cyswllt at y we. Noder fod y broblem yn un gudd ar adegau gan fod bobl ifanc yn cuddio'r ffaith nad oes ganddynt gyswllt i'r we yn eu cartrefi oherwydd embaras ymhlith eu cyfoedion. Nodwyd fod 350 o bobl ifanc wedi rhoi cais i mewn am gymorth gyda offer i allu gwneud eu gwaith.<br><br>Gwnaed sylw bod cynllun gan y Llywodraeth i ddarparu offer i ddisgyblion uwchradd, felly bod offer yn debygol o fod ar gael ond bod anawsterau cysylltedd yn parhau.<br><br>Cytunwyd y byddai AJG yn cyflwyno adroddiad pellach yng nghyfarfod mis Rhagfyr. | AJG | Cyfarfod nesaf |
| **8** | **Cadeiryddiaeth y BGC**<br><br>Nodwyd fod angen ethol Cadeirydd yn y cyfarfod nesaf, ac fel nodwyd yn y drafodaeth ar eitem 2, gofynnir i aelodau'r Bwrdd basio enwebiadau at Nonn cyn cyfarfod mis Rhagfyr. | | |
| **9** | **Unrhyw fater arall**<br><br>• Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch cost trais i'n system gofal iechyd wedi ei gylchredeg er gwybodaeth aelodau'r BGC.<br><br>• Atgoffwyd yr aelodau o'r holiadur sydd wedi ei gylchredeg gan dîm Rhaglen ARFer ynghylch effaith gweithio o gartref ar Gyngor. Gofynnir i'r aelodau annog eu staff i'w lenwi cgaph.<br><br>• Nodwyd fod y BGC wedi cael cynnig grant o £25k gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunwyd fod pawb yn hapus i dderbyn y grant. Bydd NH yn cydweithio gyda CNC i ddatblygu'r cynnig | NH | Cyfarfod nesaf |